

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Gwener – 16^{eg} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (11eg)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul canlynol – 25^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Apêl Argyfwng Indonesia

Erbyn hyn, mae cyfanswm yr arian a gasglwyd yn yr Ofalaeth yn £1,710.00. Diolch yn fawr iawn i chi am ddangos eich cefnogaeth i'r miloedd lawer sydd wedi'u heffeithio gan y daeargryn grymus a achosodd tswnami arswydus a gadael dinistr enfawr ar ei ôl yn Ynys Sulawesi yn Indonesia yn ddiweddar. Bydd yr arian yn cael ei anfon i Tearfund yn y dyddiau nesaf, felly os oes unrhyw un arall yn dymuno cyfrannu, plis cysylltwch â Mair cyn **dydd Mercher (14eg)**, os gwelwch yn dda.

Cardiau Nadolig

Mae yna saith gwahanol gynllun o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael gan y Cyngor Ysgolion Sul eleni. Ar bob cerdyn mae cyfarchiad ac adnod, ynghyd â llun lliw pwrpasol. Ceir 8 o gardiau mewn pecyn a hynny am £2.00, ond cynigir cynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac Ysgolion Sul: am bob pecyn a werthir, bydd 50c yn mynd i gronfa eich Ysgol Sul neu eich eglwys chi.

Os carech archebu cardiau, rhowch eich enw a'ch dewis o gardiau ar y daflen sydd wedi ei dosbarthu i bob un o eglwysi'r Ofalaeth, a hynny **erbyn Tachwedd 18fed**, os gwelwch yn dda, fel y gallwn eu harchebu ar eich cyfer mewn da bryd. (YSGRIFENYDDION: Rhowch archeb eich eglwys/Ysgol Sul i Mair erbyn Tachwedd 19eg, os gwelwch yn dda, fel y gallwn drefnu i'w casglu a'u dosbarthu i chi mor fuan ag y bydd hynny'n bosibl wedi hynny.)

Pecyn Dydd Gweddi'r Byd

Os ydych am i ni gasglu'r deunydd ar gyfer eich eglwys i gynnal gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn 2019, bydd angen i chi fod wedi archebu'r deunydd erbyn **dydd Mawrth, Tachwedd 13eg**, gan nodi ar y daflen y bydd rhywun o Eglwysi Bro Aled yn casglu'r pecyn ar eich rhan. (A fyddwch cystal â gadael i Mair wybod hynny hefyd, os gwelwch yn dda?)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (21ain), os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Tachwedd 11^{eg}, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi i'r oedfaon wrth i ni gofio 100 mlynedd ers y cadoediad a ddaeth a'r Rhyfel Byd Cyntaf i ben. Yng nghanol y cyfan fydd yn digwydd heddiw, trown at Dduw gan weddio ar iddo gynnal pobl ar draws y byd sy'n ceisio dod i delerau ag effeithiau trychinebus rhyfel. A diolchwn hefyd, er y niwed a'r tywyllwch sy'n dod yn sgil casineb a thrais, fod gobaith am gymod a heddwch tragwyddol trwy waed Iesu Grist, 'oherwydd ef yw ein heddwch ni.' (Effesiaid 2:14)

Ydych chi erioed wedi cael y profiad hwnnw o siarad â hen ffrind, neu gydweithwyr nad ydych wedi eu gweld ers blynyddoedd a rhyfeddu iddynt gofio amdanoch? Mae yna rywbeth hyfryd iawn mewn dod i ddeall fod pobl yn cofio amdanoch, ac yn arbennig i Gristion mae gwybod fod Cristnogion eraill yn cofio ac yn gweddio drosom yn gysur enfawr mewn amgylchiadau anodd. Nid yw hynny'n syndod gan fod y Beibl yn annog credinwyr i weddio'n daer ar Dduw mewn pob math o sefyllfaoedd gwahanol, a hynny mewn hyder y bydd yr Arglwydd yn gweithredu yn ôl ei ddoethineb ei hun, ac er daioni ei bobl. (Rhufeiniaid 8:28)

Ond nid dim ond pobl sy'n cofio amdanom. Wrth ddarllen y Beibl gwelwn y datganiad rhyfeddol fod Duw ei hun yn cofio ei bobl. Yn ystod darlithoedd DAWN yn Aberystwyth yn ddiweddar arweiniodd Hywel Edwards ni i fyfyrion ar adnodau y byddai'n ddigon hawdd i ni frysio heibio iddynt ar ddiwedd Exodus 2. 'Ond yr oedd pobl Israel yn dal i riddfan oherwydd eu caethiwed, ac yn gweiddi am gymorth, a daeth eu gwaedd o achos eu caethiwed at Dduw. Clywodd Duw eu cwynfan, a chofiodd ei gyfamod ag Abraham, Isaac a Jacob; edrychodd ar bobl Israel ac ystyriodd eu cyflwr.' (Exodus 2:23-25)

Tydi Arglwydd y Lluoedd ddim yn anymwybodol o'n poenau a'n anghenion. Wrth glywed cwynfan ei bobl oherwydd gormes y gelyn, cofiodd Duw y cyfamod a wnaeth â hwy. Cyfamod yw'r gair cyfoethog a geir yn y Beibl i ddisgrifio'r ymrwymiad diwyro hwnnw y mae'r Arglwydd wedi ei wneud i'w bobl. Ac i Gristnogion heddiw, mae mwy fyth o gysur o wybod mai cyfamod newydd yng ngwaed Iesu Grist sydd gennym erbyn hyn. (Luc 22:20) Nid gobeithio y bydd Duw yn gwneud rhywbeth i'w hachub rhywbryd yn y dyfodol y mae'r saint, ond ymddiried fod yr hyn a gyflawnodd Iesu trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad yn ddigon i achub pawb sy'n credu, yn awr ac am byth.

'Duw a'n cofiodd, Duw a'n carodd,

Duw osododd Iesu'n lawn;

Duw er syndod ddarfu ganfod

trefn gollyngdod inni'n llawn'

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 11^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 14^{eg} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
➤ **Taith Adnoddau Nadolig y Cyngor Ysgolion Sul** yn ymweld â Chapel Trefnant rhwng 7-9 yr hwyr. Bydd cyfle i brynu cardiau Nadolig, llyfrau Nadoligaidd i blant, a dewis dethol o werslyfrau ysgol Sul a llyfrau defosiynol newydd.
- Iau – 15^{fed} ➤ **Cynhadledd Undydd Dydd Gweddi'r Byd** yng Nghapel Penbryn, Treffynnon o 10.00 – 1.00.
➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00.
- Sadwrn – 17^{eg} ➤ **Ffair Nadolig** yng Nghapel Waengoleugoed rhwng 10:30 ac 1:30 i godi arian i gynnal Gofal Dydd, Helpu'n Gilydd a Hosbis San Cyndeyrn. Bydd angen unrhyw roddion erbyn Tachwedd 11eg, os gwelwch yn dda.
➤ **Maeth – Cefnogaeth Gristnogol i Amaethwyr**. Cyfarfod sy'n agored i bawb yng Nghanolfan Bryn-y-Groes, Y Bala am 2.00. Siaradwyr: Ifan Mason Davies, Goginan ac Aled Jones, Dirprwy Lywydd NFU Cymru. Bydd bwyd ar ôl y cyfarfod – am ddim!
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 21^{ain} ➤ **Moli** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio yng Nghefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 22^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 23^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 25^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd y Parch. Aron Treharne yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd aelodau Capel Cefn Meiriadog yn mynd i Gartref Yr Hen Ddeondy am 10.30 i gynnal gwasanaeth byr. Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 13^{eg} ➤ Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac fe gynhelir Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul canlynol – 25^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50 o dan arweiniad Rhodri. Ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.
➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.
➤ Bydd Pwyllgor Cymdeithas y Beibl Llansannan yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15.
- Mercher – 14^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (11^{eg})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn
- Llun – 19^{eg} ➤ Cymdeithas Llansannan: "Profiadau Patagonia" – noson yng nghwmni Mali Elwy yn Ffestri Llansannan am 7:30. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 21^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (18^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 25^{ain} ➤ Bydd y Parch. Aron Treharne yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Bydd y Parch. Aron Treharne yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa i'r daith yno **am 2.00** (sylwch ar y newid amser).
- Sul canlynol – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00.
- Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul canlynol – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.